

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/135226/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Ifan, Elen 2020. Cyfieithu Cymru yn 'Welsh Week' Wembley: H. Walford Davies, T. Gwynn Jones, a Welsh Festival Music (1924). *Llên Cymru* 43 (1), pp. 22-52. 10.16922/lc.43.2

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/lc.43.2>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Cyfieithu Cymru yn ‘Welsh Week’ Wembley: H. Walford Davies, T. Gwynn Jones, a *Welsh Festival Music* (1924)¹

Yn 1924, cyhoeddodd y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, corff a sefydlwyd yn 1918 i hybu a chryfhau gweithgaredd cerddorol yng Nghymru, gyfrol o’r enw *Welsh Festival Music*. Cadeirydd y Cyngor oedd Syr Henry Walford Davies (1869–1941) a oedd hefyd yn dal Cadair Gerddoriaeth Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Yn *Welsh Festival Music*, sy’n dwyn y teitl *Welsh Festival Book* ar y clawr mewnol, ceir gweithiau cerddorol o Gymru, Lloegr, yr Almaen a’r Eidal, gyda geiriau yn y Gymraeg a’r Saesneg wedi eu cynnwys ar gyfer pob un.² Roedd y gyfrol hon i’w defnyddio gan gôr unedig o bob cwr o Gymru mewn cyngerdd mawreddog ar ddiwedd wythnos o berfformiadau cerddorol yn Arddangosfa Ymerodraeth Prydain yn Wembley, 1924: y ‘Welsh Week at Wembley’. Un a gyfrannodd yn sylweddol at gynnwys y gyfrol hon oedd y bardd a’r llenor T. Gwynn Jones (1871–1949). Ymgwymerodd â’r dasg o gyfieithu nifer o eiriau’r caneuon yn y gyfrol: nid yn unig o’r Gymraeg i’r Saesneg, ond hefyd o’r Saesneg i’r Gymraeg, ac o’r Lladin, Almaeneg ac Eidaleg i’r ddwy iaith. Bwriedid i’w gyfieithiadau gyflwyno treftadaeth gerddorol Gymreig i gynulleidfa ryngwladol yr Arddangosfa yn Llundain, a hefyd gyfoethogi *repertoire* cantorion o Gymru ac yng Nghymru. Wedi’r cyfan, yr oedd Walford Davies yn gweld ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol – sefydliad a ariannwyd yn bennaf gan Brifysgol Cymru, gyda rhoddion gan unigolion a chyrrff cyhoeddus³ – fel modd o gyfrannu, yng ngeiriau H. G. Ley, at ‘the musical enlightenment of the Principality’.⁴ Wynebai’r gyfrol sawl cyfeiriad diwylliannol, felly: roedd yn addysgu cynulleidfa’r Ymerodraeth

am gyfoeth y diwylliant Cymreig ar y naill law, ond roedd hefyd â'i golygon ar y gynulleidfa Gymreig ar y llaw arall, ac am hyrwyddo at uchelgais y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol i godi safon bywyd cerddorol Cymru. Mae'r cyfieithiadau a geir yn *Welsh Festival Music* yn allweddol i'r rhyngweithio diwylliannol hwn. Drwy ddadansoddi cyfraniad T. Gwynn Jones i'r gyfrol hon yng nghyd-destun cysyniadau beirniadol o faes astudiaethau cyfieithu, bydd yr ysgrif hon yn archwilio'r safbwyntiau diwylliannol a'r cymhlethdodau a berthyn i *Welsh Festival Music*, gan godi cwestiynau am y modd y mae'r gyfrol yn cyfoethogi at ein dealltwriaeth o'r gynrychiolaeth – neu'r perfformiad – o Gymreictod yn y 1920au.

Mae dalennau rhagarweiniol *Welsh Festival Music* yn egluro union fwrriad y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol o ran ei defnydd: 'Complete Music Arranged for Performance in the Stadium [. . .] And prepared for General Festival Use in Wales 1924–5'⁵. Mae'n amlwg, felly, mai'r bwriad oedd i waddol yr wythnos Gymreig yn Wembley gael ei deimlo drwy'r Gymru gerddorol, a'r gyfrol hon yn ganolog i hynny.⁶ Walford Davies oedd golyg ydd y gyfrol, ac ef hefyd a ddewisodd pa destunau a oedd i'w cyn nwys ynddi. Ac yntau wedi ei fagu ar y ffin yng Nghroesoswallt, hawliai gysylltiad teuluol â Chymru. Ond yn Lloegr y cafodd ei addysg ac yno y sefydlodd ei yrfa fel cerddor. Eto, ymddengys iddo ymdrwytho yn niwylliant cerdd orol Cymru pan gafodd ei benodi i'r Gadair yn Aberystwyth a gweithiai'n ddiflino i hybu cerddoriaeth yng Nghymru.⁷

Mae tair rhan i'r *Welsh Festival Music*, sy'n cyflwyno gwahanol agweddau ar gerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys dwy emyn-dôn

Gymreig, yn ogystal â detholiad (gyda'r geiriau Saesneg gwreiddiol) o oratorio enwog Handel, *Messiah*.⁸ Is-deitl yr ail ran yw 'Enghreifftiau o Geinciau a Pheroriaeth Gymreig er amser y Tuduriaid a Darnau Cyn arach o Farddoniaeth Gymraeg Wedi eu trefnu i'w Canu gan Gorau'. Mae'n cynnwys caneuon Cymreig traddodiadol, caneuon gan y cerddor o gyfnod Elisabeth y Gyntaf, Robert Jones, gosodi adau o gywyddau a briodo lwyd ar y pryd i Dafydd ap Gwilym, a cherdd grefyddol sydd wedi ei chofnodi yn Llyfr Du Caerfyrddin.⁹ Wrth gyflwyno'r rhan hon dywed Walford Davies, 'It is fitting at all times to bring out of our treasure "things new and old".'¹⁰ Pwysleisir yma gyfoeth diwylliant Cymru gan roi llwyfan nid yn unig i'r cerddorol ond i'r llenyddol hefyd a hynny drwy gyfrwng cywyddau a phenillion traddod iadol. Yn y drydedd ran, yn ôl Walford Davies, ceir 'short masterpieces selected from the greatest works of all time', a thestunau crefyddol ydynt oll: gweithiau gan Beethoven, Palestrina a Mendelssohn, ynghyd â chasgliad o emyn-donau Cymraeg.¹¹ I gloi'r gyfrol, cyflwynir yr anthemau cenedlaethol 'Hen Wlad fy Nhadau' a 'God Save the King' ochr yn ochr.

Tabl 1: Cynnwys adrannau *Welsh Festival Music* a'u cyfraniad at y ddelwedd o Gymru y mae'r gyfrol yn ei chreu

<i>Cynnwys</i>	<i>Iaith</i> <i>(Cymraeg/ Saesneg)</i>	<i>Rôl o fewn y gyfrol</i>
RHAN 1		

Dau Eryn Cymreig	C/S	Cyfosod a chyfystyru cerddoriaeth grefyddol Cymru â chyfansoddiadau enwog o Ewrop
<i>Selection from the 'Messiah'</i>	S	Cyfosod a chyfystyru cerddoriaeth grefyddol Cymru â chyfansoddiadau enwog o Ewrop
RHAN 2		
Testunau Canoloesol (Llyfr Du Caerfyrddin a Dafydd ap Gwilym)	C/S	Arddangos hynafiaeth y diwylliant Cymraeg
Cyfansoddiadau Robert Jones	C/S	Hawlio cyfansoddwr canonaidd Seisnig i Gymru a oedd yn driw i goron Lloegr.
Caneuon a cherddoriaeth draddodiadol	C/S	Arddangos cyfoeth diwylliant, traddodiadau a hanes Cymru.
RHAN 3		

Cerddoriaeth grefyddol o Ewrop	C/S	Cyfosod a chyfystyru cerddoriaeth grefyddol Cymru â chyfansoddiadau enwog o Ewrop
Eryn-donau Cymreig	C/S	Cyfosod a chyfystyru cerddoriaeth grefyddol Cymru â chyfansoddiadau enwog o Ewrop
Eryn-dôn Almaenig	C/S	Cyfosod a chyfystyru cerddoriaeth grefyddol Cymru â chyfansoddiadau enwog o Ewrop
Hen Wlad fy Nhadau	C/S	Anthem genedlaethol Cymru
God Save the King	S	Anthem genedlaethol Prydain i gloi'r cyngerdd

Gan feddwl, at y pwrpas hwn, am *Messiah* fel un gwaith cyflawn, ceir 36 o destunau i gyd yn *Welsh Festival Music*, ac mae geiriau Cymraeg a Saesneg ymhob achos ac eithrio *Messiah* a 'God Save the King'. Mae rhan fwyaf y geiriau hynny wedi eu cyfieithu gan T. Gwynn Jones, gyda rhai testunau o'i eiddo wedi eu llunio o'r newydd i'w canu ar geinciau traddodiadol. Wrth edrych ar gynnwys y gyfrol hon, fe'n trewir gan amrywiaeth y gwaith gan

Gwynn Jones: mae'r 19 o ganeuon â geiriau ganddo sy'n ymddangos yn *Welsh Festival Music* yn rhychwantu canrifoedd, ac yn arddangos lluo o arddulliau. Mae'r amrywiaeth o destunau a *genres* cerddorol a ddewiswyd gan Walford Davies – a'r cyfieithiadau a gomisiynodd gan Gwynn Jones – yn amlygu bwriad y golygydd wrth guradu'r casgliad hwn. Drwy gyfrwng gwaith y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, gobeithiai Walford Davies wneud cyfraniad i fywyd cerddorol yng Nghymru, gan ehangu ei gorwelion cerddorol. Wrth graffu ar y gweithiau a berfformiwyd yn ystod cyngerdd olaf y 'Welsh Week', sef cynnwys *Welsh Festival Music*, cawn fewnwelediad i'r modd y dymunai Walford Davies i Gymru gael ei gweld gan eraill. Ei fersiwn ef o Gymreictod a'r diwylliant Cymraeg a gyflwynir yn y gyfrol hon, ac fe welir yn *Tabl 1* ddibenion y gwahanol destunau a gynhwysir yn *Welsh Festival Music*.

Perfformiwyd y caneuon a gynhwysir yn *Welsh Festival Music* ar brynhawn Sadwrn, 30 Awst, pan safodd Walford Davies yn Stadiwm Wembley o flaen côr unedig o dair mil o gantorion Cymreig ar benllanw wythnos o ddigwyddiadau a chyngherddau Cymreig yn Arddangosfa Ymerodraeth Prydain. Roedd cael cynrychiolaeth Gymreig yn rhan o'r {yl enfawr hon yn hollbwysig i Walford Davies, a'i disgrifiodd fel 'great opportunity' wrth alw am gydweithredu gan gorau Cymru yn y *Musical Times*.¹² Dyma oedd yr {yl fwyaf o'i bath i'w chynnal ym Mhrydain erioed, ac fe godwyd Stadiwm Wembley yn benodol ar ei chyfer.¹³ Mewn 220 acer o ofod arddangos roedd pafiliynau yn cynrychioli gwahanol wledydd yr Ymerodraeth, a 'Phalasau' enfawr i arddangos peirianeg, celf weledol a diwydiant Prydain.¹⁴ Agorwyd yr Arddangosfa gan y Brenin Siôr V ar 24 Ebrill 1924 a darlledwyd ei arait h i gartrefi ledled Prydain drwy gyfrwng

y BBC (a oedd newydd ei sefydlu yn 1922), araith yr oedd modd prynu copi ohoni ar record yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw.¹⁵ Roedd yr wythnos Gymreig yn Wembley, fel y nododd gohebydd y *Musical Times*, ‘of the order of a national rather than a musical function’: roedd yn fodd i hybu diddordebau a thalentau Cymru gerbron gweddill yr Ymerodraeth a’r byd.¹⁶ Daeth cymdeithasau corawl i Lundain o Bont-y-gwaith, Troed-yrhiw, Llandinam a Chemaes, i enwi rhai yn unig.¹⁷ Cafwyd perfform iadau gan gerddorfeydd o ysgolion y Barri a Dolgellau, ac fe gyfrannodd disgyblion o Hendrefadog berfformiad o’r *Mikado* (mewn gwisg llawn) at yr achos.¹⁸ Amrywiol o ran safon oedd y gwahanol gyngherddau, fodd bynnag, ac ar y noson gyntaf ymddengys na lwyddodd y côr, a oedd yn gyfuniad o aelodau o 14 o leoliadau dros Gymru, ganu Y Dioddefaint yn ôl *Sant Mathew gan* J. S. Bach yn ei gyfanrwydd o ganlyniad i ddiffyg ymarfer.¹⁹

Roedd rhai o gyngherddau eraill yr wythnos Gymreig ychydig yn fwy llwyddiannus, er mai lled-ganmoliaeth a gafodd Cymdeithas Gorawl Rhydaman am ei pherfformiad o Offeren B Leiaf Bach gan y *Musical Times*: ‘The singers should be capable of giving a first-rate performance of the work one day.’²⁰ Er mai braidd yn llugoer oedd ymateb y *Musical Times* i’r wythnos, mae E. J. Grutchfield (ysgrifennydd Walford Davies, a fu, wrth reswm, ynghanol y gwaith trefnu ar gyfer yr wythnos) yn bendant yn ei haerriad fod hanes wedi ei greu yn Wembley: ‘an historical event which should have far-reaching consequences on the future of music in Wales’²¹. Roedd uchafbwynt yr wythnos, sef perfformiad y côr unedig o dair mil o aelodau yn Stadiwm Wembley ei hun, yn gyngerdd uchelgeisiol ac amrywiol, a ddisgrifiwyd gan y *Musical Times* fel ‘a very

interesting mixed bag of Welsh and other music'.²² Yn bresennol roedd y cyn-Brif Weinidogion David Lloyd George ac Iarll Balfour, ill dau wedi rhoi gair o'r llwyfan yn cymeradwyo'r digwyddiad, a chofnodwyd i Balfour honni bod y cyngerdd 'probably without parallel in artistic history', hyd yn oed.²³

Wrth arddangos talentau cerddorol Cymru yn y cyngerdd hwn, roedd y perfformwyr yn defnyddio *Welsh Festival Music* ac yn canu geiriau T. Gwynn Jones. Dyma {r na chysylltir yn syth, efallai, â rhodres Prydeindod. Mae ei gyfraniad helaeth i gynnwys y gyfrol hon, felly, yn cynnig cyfle i gydnabod deuliaeth drawiadol. Mae gwaith cynnar Gwynn Jones yn llawn datganiadau angerddol o'i gariad at Gymru, megis yn 'Gwalia' a 'Môr o Waed Dros Gymru Wen', gan ddangos agwedd genedlaetholgar gref.²⁴ 'Mae benyr y Sais/ Yn feichiog o frad ac o greulon drais',²⁵ meddai yn 1890 yn 'Codwn Gledd er Cadw'n Gwlad', ac mae delweddaeth ryfelgar-genedlaetholgar 'Cadlef Cymru Fydd', a gyhoeddwyd yn 1889, eto'n nodweddiadol o ganiadau Gwynn Jones am Gymru yn y cyfnod hwn.²⁶ Gwelodd nifer, gan gynnwys R. M. Jones ac Alun Llywelyn-Williams, barhad o ysbryd y mudiad dros ymreolaeth i Gymru yn 'Ymadawiad Arthur', awdl arobryn 1902.²⁷ Mae M. Wynn Thomas yntau'n dadlau nad oes modd gwahanu'r hyn a geir yn yr awdl oddi wrth deimladau'r bardd ei hun am fethiannau mudiad *Cymru Fydd*.²⁸ Synir am T. Gwynn Jones fel bardd yr 'Hyfryd Wlad', wedi ei wreiddio ym myd y mythau, ac i raddau fe grëwyd myth o'i amgylch yntau hefyd: cymerwyd bod ei gerdd Arthuraidd fawr yn gynrychioladol o'i genedlaetholdeb, ac fe dueddwyd i drosglwyddo hynny i'r hyn a ddeallir am ei agwedd tuag at ei genedl yn fwy cyffredinol.

Yn yr un cyfnod â ‘Gwalia’ a ‘Cadlef Cymru Fydd’, cyhoeddodd Gwynn Jones gerdd Saesneg, ‘The Irish Coercion Act’, a ymddangosodd yn *Baner ac Amserau Cymru* yn 1889. Gwelir yma addefiad o’i gefnogaeth i annibyniaeth Iwerddon, a datganiadau o gefnogaeth gan y Cymry i’r Gwyddelod yn eu hymdrech i ymryddhau. Cyfeirir at ‘your brother Taffy’, ac mae’r gerdd yn galw ar drigolion Iwerddon i ymladd yn erbyn Llywodraeth Prydain: ‘Crash the tyrant, furious crush the Tory!’²⁹ Gellir tybio y parhaodd Gwynn Jones yr un mor frwd dros annibyniaeth Iwerddon hyd ei gwireddiad yn 1922, fel yr awgryma’r nodyn ar gerdd anghyhoeddedig yn dwyn y teitl ‘Tir na n-Óg’ – cerdd a gyfansoddwyd, dywed yn y nodyn, ar ei ymweliad cyntaf â’r wlad ‘wedi’r rhyddhad’, a hynny yn 1923 (pwysig nodi yma nad oes gan y gerdd hon unrhyw berthynas â’r awdl sydd â’r un teitl a ymddengys yn *Caniadau*).³⁰ Meddai’r bardd: ‘Ni chefais i lawenydd cyffelyb erioed – y *corónach dubh* [y goron ddu] wedi mynd!’³¹ Dyma ddatganiad clir o wrthwynebiad i’r Ymerodraeth Brydeinig, ‘y goron ddu’, yn ei agwedd tuag at Iwerddon ar ddechrau’r 1920au, felly. Gellid hefyd ddadlau fod ei weithgarwch cyfieithu’n amlygu’r un safbwynt. Noda Llŷr Gwyn Lewis, er enghraifft, mai nod Gwynn Jones wrth gyfieithu o wahanol ieithoedd Ewropeaidd (gan gynnwys yr Wyddeleg) i’r Gymraeg oedd i ‘negyddu’r angen am Saesneg’, gan ddiddymu’r ‘grym llywodraethol’, imperialaidd oedd ganddi dros y Gymraeg.³² Ond gwelir bod ei agwedd tuag at y sefydliad Prydeinig rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn fwy amwys, wrth iddo benderfynu derbyn y CBE yn 1937. Nis derbyniodd yn ddigwestiwn a heb bwysu a mesur dwys, fodd bynnag, fel y dengys llythyr a anfonodd Gwynn Jones at William Eames, yn sgil derbyn gair o longyfarchiadau ganddo:

Bûm yn petruso tipyn a dderbyniwn i'r cynnig i roi i mi beth a elwir yn anrhydedd cyhoeddus. Pan euthum i ystyried, sylweddolais, gyda rhywfaint o fodlonrwydd hefyd, fy mod innau yn fy nhro yn llai penboeth na chynt, a bod fy hunanoldeb personol efallai, beth yn llai nag y byddai. Beth bynnag am briodoldeb yr urdd, fe'i derbyniwyd gan ysgolheigion cystal â minnau, o leiaf, a meddyliais fod llai o rodres personol yn ei derbyn na'i gwrthod.³³

Mae deuoliaeth debyg i'w gweld mewn achos arall ym mywyd cyhoeddus y bardd, a hynny yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma heddychwyr hunanhonedig: y mae ymysg ei bapurau personol yn y Llyfrgell Genedlaethol bytiau o ddyddiadur a gadwodd yn ystod y Rhyfel Mawr, dan y teitl 'Diary of a Pacifist', a roddwyd gan yr awdur ei hun.³⁴ Yn ei gofiant diweddar i Gwynn Jones, mae Alan Llwyd yn pwysleisio atgasedd y bardd at ryfel a dylanwad yr atgasedd hwnnw ar y gwaith a gynhyrchodd yn ystod y cyfnod hwn: 'Trwy gydol cyfnod y rhyfel, bu'n protestio yn erbyn yr anfadwaith, trwy gyfrwng cerdd, ysgrif a dyddiadur.'³⁵ Yn 1915, fodd bynnag, mewn llythyr at R. Silyn Roberts, dywed Gwynn Jones, 'Yr wyf yn fynych bron ag ymollwng fy hun i ganlyn y llif gwaedlyd . . . Ond wedi'r cwbl, ni allaf ildio . . . Felly dal yr wyf at fy hen safle, gan gredu mai dyna fy nyledswydd.'³⁶ Mae cymhellion Gwynn Jones yn aneglur yma, ond ceir awgrym mai anobaith sy'n ei dynnu at ymuno â'r gyflafan, yn hytrach nag unrhyw newid yn ei safbwynt heddychol. Yn 1918, galwyd Gwynn Jones o flaen y Bwrdd Meddygol o ganlyniad i newidiadau i delerau gorfodaeth filwrol. Disgwylid y byddai, o ganlyniad i'w wrthwynebiad i'r Rhyfel, yn gwrthod mynd, ond dan ddylanwad ei gyfeillion, yn ôl David Jenkins, fe'i

perswadiwyd ‘y deuai’n rhydd, sut bynnag, oherwydd cyflwr ei iechyd, ac mai dyna’r ffordd leiaf ei thrafferth’.³⁷ Ai rhy angharedig fyddai awgrymu mai heddychwyr ‘ar bapur’ yn unig oedd Gwynn Jones? Nid oedd yn ddyn iach ar y pryd, a’i salwch yn golygu na fedrai ‘ddringo’r Buarth heb gollu’i wynt, a barnodd ei feddyg [. . .] fod yn rhaid iddo fynd i weld arbenigwr Sir Aberteifi ar ddarfodedigaeth’.³⁸ Pe bai’n holliach, tybed a fyddai wedi gwneud safiad mwy amlwg yn erbyn gorfodaeth filwrol? Ni ellir ond damcaniaethu yn yr achos hwn, ond mae’n arddangos tueddiad efallai i ddilyn y trywydd a achosai’r lleiaf o helynt, sydd i’w weld i raddau yn ei dderbyniad o’r CBE yn 1937 hefyd. Mae’n werth nodi’r posibilrwydd y bu ei ddiffyg ymwrthodiad swyddogol yn 1918 o fudd gyrfaol (damweiniol) iddo: fe gofir mai T. Gwynn Jones a gafodd Gadair Llenyddiaeth y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth flwyddyn yn ddiweddarach, a hynny ar draul un o’r ymgeiswyr eraill T. H. Parry-Williams, yn rhannol o ganlyniad i safiad gwleidyddol a heddychol T. H. a wrthododd fynd i ymladd.³⁹

Wrth droi’n ôl at *Welsh Festival Music*, felly, mae’n drawiadol mor agos o ran cronoleg oedd ei gerdd ‘Tir na n-Óg’ yn 1923, sy’n dathlu ymreolaeth Iwerddon, a’i gyfraniad sylweddol i’r gyfrol a gyhoeddwyd i gyd-fynd ag Arddangosfa’r Ymerodraeth Brydeinig yn 1924. Gan ystyried ei gyfeiriad at y ‘*corónach dubh*’, hawdd tybio na theimlai’r barddgyfieithydd T. Gwynn Jones yn hollol gyfforddus â’r gyfrol y cyfrannai ati ac â’r hyn yr oedd yn ei gynrychioli. Er hyn, y mae E. J. Grutchfield yn enwi Gwynn Jones yn ei erthygl i’r *Welsh Outlook*, wrth iddo bwysleisio’r gwaith ymchwil a’r ymdrech a roddodd i’r gyfrol: cyfeiria at ‘unselfish work and unsparing energy’ y bardd.⁴⁰

Os derbynnir portread Grutchfield, felly, gwelwn i'r casgliad hwn o ganeuon fod yn brosiect sylweddol i'r rheini a oedd ynghlwm wrtho, ac i Gwynn Jones yn arbennig. Dyma'r bardd, i bob pwrpas felly, yn rhoi cryn ymdrech i sicrhau llwyddiant digwyddiad a drefnwyd gan gydwethiwr iddo yn Aberystwyth a oedd â'r bwriad o fawrygu'r Ymerodraeth, lle'r oedd Cymru yn un arall o emau y 'goron ddu', chwedl Gwynn Jones. Gwrthddywediad o ran ei gymeriad, efallai, ac eto cofir am y gwahaniaeth hwnnw rhwng ei safbwyntiau a'i weithredoedd: deuoliaeth sy'n batrwm yn ei fywyd. Tybed a welodd Gwynn Jones gyfle yn *Welsh Festival Music* i sicrhau geiriau Cymraeg ar gyfer rhai o glasuron cerddorol y byd, a'r cyfle i rannu cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru â gwledydd eraill? Pwysleisio cenedlaetholdeb diwylliannol Gwynn Jones a wna Alan Llwyd wrth drafod awdl 'Gwlad y Bryniau' – 'Trwy ei llên, ei barddoniaeth a'i chwedlau y llwyddodd y genedl i sicrhau parhad a goroesiad'⁴¹ – ac efallai mai fel cyfraniad at oroesiad y genedl y gwelodd Gwynn Jones y gwaith a wnaeth ynghlwm wrth *Welsh Festival Music*. Er hyn, dylid nodi hefyd nad oedd y bardd-gyfieithydd mor danbaid genedlaetholgar ag y mae ei waith cynnar yn ei awgrymu. Mewn llythyr at R. Silyn Roberts yn 1926, dywed, 'pan ddof wyneb yn wyneb a'r [*sic*] dewis – bod yn Sais neu bod yn Gymro, yna Cymro a fyddaf, wedi'r cwbl. Pe cawn ddewis rhwng bod yn Gymro a bod yn ddim ond dyn, heb un ansoddair, mi fyddwn ddyn, rwy'n meddwl.'⁴² Mae ei gyfraniad at *Welsh Festival Music* yn gydnaws mewn gwirionedd â chymeriad y dyn, yn llawn cymhlethdodau a gwrthddywediadau, sydd i raddau mewn gwrthwynebiad â'r persona a gofir heddiw.

* * *

Mae *Welsh Festival Music*, fel y nodwyd, yn gyfrol ddwyieithog sy'n codi cwestiynau ynghylch rhesymau Walford Davies a'r Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol dros ddarparu geiriau Cymraeg a Saesneg yn y gyfrol. Yn anffodus ni wyddys ym mha iaith (neu ieithoedd) y perfformiwyd y gweithiau yn y prif gyngerdd, ond cynigir dewis i ddefnyddiwr cyffredinol y llyfr: cyflwynir y geiriau Cymraeg a Saesneg o dan yr erwydd gerddorol yn cyd-fynd â'r cyfryw nodau ymhob achos, bron. Yn ymarferol, mae'n gwneud synnwyr i gynnig y ddwy iaith: drwy wneud hyn fe gynyddir nifer y bobl a fyddai'n gallu defnyddio'r gyfrol, gan gynyddu felly'r nifer a fyddai o bosibl yn ei phrynu. Ond mae sicrhau na fyddai unrhyw unigolyn a feddai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn cael ei eithrio hefyd yn cydsynio ag ethos y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, corff a gafodd ei greu â'r bwriad o hybu cerddoriaeth drwy Gymru gyfan. Wrth synio'n fwy cysyniadol, gellid dadlau bod yr ymgais i gynnwys y Gymraeg ar yr un lefel â'r Saesneg ar blatfform Arddangosfa'r Ymerodraeth Brydeinig yn ceisio dangos pwysigrwydd y ddwy iaith i ddiwylliant a bywyd Cymreig a Chymraeg. Fel y dywed Angharad Price wrth ymdrin â'r gair 'cyfieithu' ei hun, 'wrth *gyf-ieithu*, [. . .] dyma gysylltu, magu cydraddoldeb a chadarnhau perthynas ieithoedd â'i gilydd'.⁴³ Gellid meddwl am y cyfieithiadau yn *Welsh Festival Music* fel cynrychiolaeth o hyn, ac mae'r ffaith bod y gyfrol yn cynnwys testunau gwreiddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hefyd yn amlygu cydraddoldeb statws y ddwy iaith yn y casgliad.

Mae'r patrwm dwyieithog sydd i'w weld yn y gyfrol yn adlewyrchu'r cynnwrf a'r hyder newydd a welwyd yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Unwyd y Colegau drwy Siartr Frenhinol i ffurfio Prifysgol Cymru yn

1893, a oedd cyn hynny yn dyfarnu graddau Prifysgol Llundain, gan greu system addysg uwch hunangynhaliol, Gymreig.⁴⁴ Pwysleisia'r hanesydd John Davies y 'bywiogrwydd cynyddol' yn y byd diwylliannol yng Nghymru yn y cyfnod, wrth i bensaerniaeth, drama, ysgolheictod a llenyddiaeth ffynnu, ac erbyn y 1920au, gwelwyd datblygiad 'ffenomen newydd' y 'Cymry Cymraeg dosbarth-canol, hyderus eu Cymreictod', a gyfrannodd yn sylweddol at fywyd llenyddol Cymru.⁴⁵ Roedd gan y Gymru hyderus hon ei hanian a'i hunaniaeth arbennig ei hun a hynny o fewn cyd-destun Prydeinig o hyd: i raddau helaeth, roedd Cymreictod a Phrydeindod yn gyfochrog neu'n gyfunol, hyd yn oed.⁴⁶ I nifer o'r Cymry dysgedig, diwylliannol hyn, roedd Cymru yn rhan neilltuol o Brydain – ac felly, yn ehangach, o'r Ymerodraeth Brydeinig.

Un ffordd o sicrhau llwyfan i Gymru yn ystod y cyfnod hwn oedd hawlio lle yn Arddangosfa'r Ymerodraeth Brydeinig ochr yn ochr â'r gynrychiolaeth o wledydd eraill, megis India, Seland Newydd a Chanada (un o brif atyniadau'r arddangosfa oedd cerflun o Dywysog Cymru wedi'i greu o fenyn Canadaidd).⁴⁷ Roedd prosiect Walford Davies, y 'Welsh Week', yn gyfle i arddangos talentau Cymru, a chynnal y ddelwedd mai hi oedd gwlad fwyaf cerddorol yr Ymerodraeth. Cyfrannai at ffurfio hunanddelwedd genedlaethol i Gymru ac mae i gyfieithiadau Gwynn Jones rôl neilltuol yn hynny, fel yn achos testunau eraill a gyfieithwyd o'r Gymraeg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Cyfeiria Helena Miguélez-Carballeira, Angharad Price a Judith Kaufmann, er enghraifft, at y modd yr oedd cyfieithiad James Harries o *Rhys Lewis* Daniel Owen yn 1888 yn bwriadol wrthwynebu'r portread

o Gymru a gyflwynwyd gan adroddiadau'r Llyfrau Gleision yn 1847.⁴⁸ Yng nghyddestun cyfieithu a'r iaith Wyddeleg, dywed Maria Tymoczko:

translations form images of whole cultures and peoples [. . .] images that in turn come to function as reality. When such representations are done for a people themselves, they constitute a means of inventing tradition, inventing the nation, and inventing the self.⁴⁹

Mae'r cyfieithiadau niferus sydd i'w gweld yn *Welsh Festival Music* yn adlewyrchiad clir o'r dyfeisio ymwybodol hwn: drwy gyfrwng curadu gofalus Walford Davies a chyfieithiadau a chyfansoddiadau gwreiddiol Gwynn Jones, mae'r gyfrol a'i chynnwys yn creu cysyniad o Gymreictod i'w gyflwyno i'r miloedd o ymwelwyr a fyddai'n mynychu'r Arddangosfa dros gyfnod y 'Welsh Week'.⁵⁰ Mae'r cysyniad hwn, sef bod y weithred o gyfieithu yn fodd i greu darlun cynrychioladol o ddiwylliant, yn berthnasol nid yn unig i'r cyfieithiadau unigol o eiddo T. Gwynn Jones a geir yn *Welsh Festival Music*, ond hefyd i'r gyfrol ei hun fel cyfanwaith: gellid, bid si'r, synio am *Welsh Festival Music* ac, ymhellach, y 'Welsh Week at Wembley', fel 'cyfieithiadau', a'r gyfres o gyngherddau yng nghyd-destun ehangach yr Arddangosfa fel modd o ddistyllu a chynrychioli cenedl gyfan.

Yn ei chyfrol *Performing Wales*, mae Lisa Lewis yn mynd i'r afael â'r modd y mae'r diwylliant Cymraeg a Chymreig yn cael ei 'berfformio' ar wahanol lwyfannau, ac yn dadlau bod y perfformio hwn yn rhan annatod o fynegi a datblygu hunaniaeth ddiwylliannol. Pan fo'r perfformiad hwnnw yn cael ei

lwyfannu y tu allan i ffiniau naturiol y diwylliant, fodd bynnag, fel yn Wembley yn 1924, daw cyfieithu yn angenrheidiol:

such performances have been attempts from within the culture to claim that its participants are part of a broader identity set (Welsh and British, for example) and have involved a degree of cultural translation, or rather, a performance of Welshness in English.⁵¹

Perfformiad o Gymreictod ar gyfer cynulleidfa Brydeinig oedd y ‘Welsh Week at Wembley’, a hwnnw’n berfformiad â’r bwriad o arddangos hunaniaeth Gymreig fel un agwedd ar Brydeindod. Mae’r gyfrol a gynhyrchwyd ar gyfer y perfformiad hwnnw, *Welsh Festival Music*, yn rhan annatod o’r modd y llwyfannwyd y cysyniad o genedl yn Wembley, ac fe fydd y cyfieithu diwylliannol sydd ar waith yma yn cael sylw pellach wrth ymdrin â thestunau unigol isod.

Un agwedd ar ddiwylliant Cymru a amlygir gan gynnwys *Welsh Festival Music* yw hynafiaeth y traddodiad cerddorol a llenyddol. ‘Majestas Dei’ – cyfieithiad Saesneg T. Gwynn Jones o ddetholiad o’r gerdd ‘Gogonedauc argluit hanpich guell’ o Lyfr Du Caerfyrddin⁵² – yw’r gwaith cynharaf yn y gyfrol. Dyma un o’r cyfieithiadau nad yw wedi ei greu i’w ganu, ond yn hytrach fe geir yma gyfieithiad llythrennol o’r geiriau Cymraeg: cyfieithiad at bwrpas cyfeiriol yn unig ydyw. Gosodir y cyfieithiad i ddilyn y sgôr gerddorol yn *Welsh Festival Music*, gan ymddangos ar yr olwg gyntaf fel pennill arall, ond wrth graffu’n fanylach, daw’n amlwg nad yw’r nifer o sillafau yn y llinellau Saesneg yn cyfateb i’r gwreiddiol, gan wneud y cyfieithiad bron yn amhosibl ei ganu ar y

gosodiad o'r geiriau Cymraeg.⁵³ Dyma gynnig cyfle i ddeiliaid y gyfrol hon ddeall, efallai am y tro cyntaf, destun y credid ar y pryd iddo gael ei gofnodi yn y ddeuddegfed ganrif, ac i'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd â'r diwylliant i werthfawrogi hynafiaeth y traddodiad Cymraeg.

Dau destun nodedig a gynhwysir yn y gyfrol yw cyfieithiadau T. Gwynn Jones o ddetholiadau o ddau gywydd a briodolid adeg cyhoeddi'r gyfrol i Dafydd ap Gwilym, sef 'Y Daran' ac 'Y Deildy'.⁵⁴ Gwelir yma ymgais gan y golygydd i gynnwys enghreifftiau o un o fesurau hynafol barddoniaeth Gymraeg, gan un o brif feirdd y mesur, gan bwysleisio eto ddilysrwydd a chyfoeth etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru. Gosodwyd 'Y Daran' – 'Thunder' yw'r teitl Saesneg – fel testun i'w lafarganu gan denor a chôr pedwar llais, gyda chyfeiliant piano. Gan mai corgan (*chant*) a geir yma, mae rhythmau'r gerddoriaeth yn dilyn y farddoniaeth i raddau helaeth a'r geiriau, yn hytrach na'r alaw, sy'n cael y flaenoriaeth.⁵⁵ Ceir yma ddetholiad o 14 llinell o'r cywydd, ac wrth gyfieithu mae Gwynn Jones, yn hytrach na cheisio arddel ffurf y cywydd yn union, wedi mabwysiadu patrwm odli soned Betrarchaidd, ond gan atgynhyrchu llinellau seithsill y cywydd.⁵⁶ Dywedodd H. Idris Bell, wrth drafod gwaith cyfieithu Gwynn Jones, 'nad peth mor syml â symud cawgaid o flodau o un ystafell i ystafell arall yw'r gorchwyl o gyfieithu barddoniaeth',⁵⁷ a diau mai ystyriaeth debyg i hon a sbardunodd T. Gwynn Jones i ddewis cyfuniad o ffurf y cywydd a ffurf y soned ar gyfer y cyfieithiad hwn. Yn 1922, ysgrifennodd Gwynn Jones at y cerddor W. S. Gwynn Williams yn mynnu nad oedd y Saesneg yn gweddu i rai mesurau Cymraeg – 'language is not like water', meddai⁵⁸ – a gwelir yn 'Thunder' y meddylfryd hwn ar waith.

Mae'r cyfieithiad ei hun yn fedrus, ac fe geir ymdrech i gyfleu grym delweddu'r gwreiddiol, fel yn y llinellau canlynol: 'Tân aml a d'r tew'n ymladd', 'Red flame the thick flood flouting'; 'Clywais fry, ciliais o fraw', 'Staring, stunned, trembling I went'; 'Curo glaw ar bob craig las', 'Shatt'ring showers on each green mound'.⁵⁹ Gwelir sut y mae Gwynn Jones hefyd wedi ceisio efelychu rhai o seiniau'r gynghanedd gydag odlau mewdol a chytseiniaid cyfatebol drwy gydol y gwaith – 'Tumult of mountains tumbling' a 'Loud raging o'er the regions', er enghraifft.⁶⁰ Yn yr un modd, mae cyfieithiad Gwynn Jones o 'Y Deildy', 'The Arbour', a osodwyd yn *Welsh Festival Music* ar gyfer unawd tenor a chôr pedwar llais digyfeiliant, hefyd yn cyfleu seiniau'r cynganeddion. Mae'r cyflythreniad mewn llinellau megis 'Gold shall gleam in the gloaming' a 'Tall the trees, lightly trailing' yn enghraifft o'r dechneg y mae'r cyfieithydd yn ei defnyddio yma.⁶¹ Fel yn 'Thunder', dewisa Gwynn Jones gyfleu ffurf y cywydd yn 'The Arbour' drwy fabwysiadu llinellau o saith sillaf yn y Saesneg. Yn wir, bron na ellir dweud bod y cwpled 'I'll fashion an arbour there,/ Made of golden broom for her', er nad yw'r odl yn gyflawn nac yn cynnwys amrywio acennog a diacen ar y brifodl, yn dwyn i gof yr odlau cypledol sy'n rhan annatod o'r cywydd.⁶²

Mae i gyfieithu llenyddol ei heriau. Rhaid i'r cyfieithydd ystyried agweddau megis cynnwys semantig y testun, rhythm a sillafau'r testun, delweddu a nodweddion llenyddol eraill, a chyd-destun diwylliannol y testun gwreiddiol.⁶³ Ond mae ystyriaethau pellach wrth gyfieithu testun sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth: mae gofyn hefyd i'r cyfieithydd gynhyrchu testun sy'n cydymffurfio â rhythmau a naws y gerddoriaeth sydd, wrth gwrs, yn osodiad o'r

geiriau gwreiddiol. Pwysleisia ymdriniaethau beirniadol ar y broses o gyfieithu geiriau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth (*MusicLinked Translation*) mor wahanol i'r arfer yw'r dasg wrth law.⁶⁴ I Harai Golomb, nid yw hierarchaeth cyfieithu llenyddol yn berthnasol yn achos cerddoriaeth, wrth i berthynas y geiriau gwreiddiol â'r gerddoriaeth (yn arbennig sain llythrennau penodol a'u lleoliad yn y llinell) gymryd goruchafiaeth dros agweddau a fyddai fel arfer yn greiddiol: 'the semantic component of the text is no longer immune from deliberate deviations in the service of the all-important rhythmical component.'⁶⁵

Gan ddatblygu syniad Golomb o hierarchaeth, mae methodoleg 'The Pentathlon Approach' Peter Low yn awgrymu pum categori – 'Singability', 'Sense', 'Naturalness', 'Rhythm', 'Rhyme'⁶⁶ – i'r cyfieithydd 'gystadlu' ynddynt. Yng ngeiriau Low: '[the pentathlete will] sometimes choose to come second or third in one event, keeping their eyes on the whole day's challenge.'⁶⁷ Yr her yw cynhyrchu addasiad o'r testun gwreiddiol sy'n ddigon triw o ran cynnwys, ond sy'n gweddu'n union i'r gerddoriaeth. Mae'r hyblygrwydd y mae'r fethodoleg yn ei gynnig yn arbennig o berthnasol ar gyfer yr astudiaeth hon o gyfieithiadau T. Gwynn Jones o ganeuon: gwelir maes o law sut y mae Gwynn Jones yn blaenoriaethu gwahanol agweddau o'r testun gwreiddiol yn y cyfieithiadau o'i eiddo sy'n ymddangos yn *Welsh Festival Music*. Ceir trafodaethau bywiog ar bwysigrwydd categori olaf Low, sef odl, mewn nifer o destunau sy'n ymdrin â chyfieithu geiriau caneuon. Ceir cydsyniad mai'r pwyslais ar odl yw'r prif reswm tros fethiant nifer o gyfieithiadau o destunau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth.⁶⁸ Fel y noda Arthur Graham, mae effaith

glywedol odl yn cael ei lleihau'n sylweddol wrth osod geiriau i gerddoriaeth, ac felly nid yw odl o reidrwydd yn rhan allweddol o gân yn ei chyfanrwydd: 'The auditory effect of rhyme is much weaker in song than in poetry, for the actual time between rhymes is greater, and the cadential function of rhyme is handled by musical cadence.'⁶⁹ Yng ngoleuni'r datganiad olaf, diddorol yw penderfyniad T. Gwynn Jones, yn achos 'The Arbour' a 'Thunder', i adlewyrchu rhai o nodweddion ffurf y cywydd yn ei gyfieithiadau, er na chlywir ergyd y gynghanedd yn yr un ffordd yng nghyd-destun y per fformiad cerddorol. Mae'n ddigon posib y byddai cynnwys rhyw lun ar y gynghanedd yn ei gyfieithiadau o'r cywyddau yn ystyriaeth allweddol i'r bardd-gyfieithydd beth bynnag fo'r cyd-destun, a chan ystyried y cynh wyswyd y testunau hyn yn y casgliad fel enghreifftiau o etifeddiaeth lenyddol Cymru, fe fyddai'n rhyfedd pe bai'r gynghanedd ar goll yn gyfan gwbl.

Mae cynnwys ail ran *Welsh Festival Music* mewn trefn gronolegol: wedi dechrau yn y ddeuddegfed ganrif (fel y tybid ar y pryd) gyda 'Gogoneddawc Arglwydd' ('Majestas Dei'), a throi ar ôl hynny at gywyddau'r bedwaredd ganrif ar ddeg (eto, fel y tybid ar y pryd), cyflwynir wedyn bum cân gan y cyfansoddwr a'r liwtiwr Elisabethaidd Robert Jones (*fl.*1597–1615).⁷⁰ Cafodd Jones yrfa lwyddiannus fel cerddor – graddiodd fel Mus.Bac. o Brifysgol Rhydychen⁷¹ – gan gyhoeddi pum cyfrol o ganeuon unigol a chyfrol o fadrigalau, ac yn 1601 cyfrannodd fadrigal i *The Triumphs of Oriana*, casgliad o ganeuon er mawl i Elisabeth y Gyntaf.⁷² Honna W. H. Grattan Flood mewn erthygl sy'n gyfoes â chyhoeddiad *Welsh Festival Music* fod Jones yn Gymro,⁷³ ond, yn ôl David Brown, 'nothing is known of his family',⁷⁴ ac fel 'cyfansoddwr

a liwydd Seisnig' y cyfeiria *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* ato.⁷⁵ Fel cyfansoddwr ffurfiau 'ayre' a madrigal, ystyrir Robert Jones yn rhan o ysgol cyfansoddwyr Seisnig y cyfnod, ac fe gyfeirir ato fel Sais gan ei gyfoeswr Thomas Morley hefyd.⁷⁶

O'r caneuon o eiddo Robert Jones a ymddengys yn *Welsh Festival Music*, darperir cyfieithiad Cymraeg o'r geiriau Saesneg (dienw) ar gyfer pob un, a T. Gwynn Jones sy'n gyfrifol am y pump: 'Sweet Kate = Fwynaf Wen', 'Sweet, Come Away, My Darling = O, Dere Di', 'In Sherwood Lived Stout Robin Hood = Byw yn y Coed 'Roedd Robin Hwd', 'Farewell Dear Love = Da Bych Di Byth' a 'Joy in Thy Hope = Dal Obaith Mwyn'. Ymddengys 'Farewell Dear Love' yn un o ddramâu Shakespeare, *Twelfth Night*, sy'n cynnwys nifer o gyfeiriadau at ganeuon y cyfnod, a dyfyniadau ohonynt. Mae'r ffaith fod cân gan Robert Jones yn ymddangos yn un o ddramâu Shakespeare yn awgrymu poblogrwydd gwaith y cyfansoddwr, gan ddangos hefyd mor Seisnig yw cyd-destun ei waith. Cwyd hyn gwestiynau ynghylch cynnwys ei gyfansoddiadau yn *Welsh Festival Music* dan y pennawd 'Enghreifftiau o Geinciau a Pheroriaeth Gymreig'.⁷⁷ Efallai mai ar sail ei gyfenw y dewisodd Walford Davies gynnwys Robert Jones yn y casgliad. Yn sicr, mae hawlio cerddor a oedd yn allweddol i'r traddodiad cerddorol Seisnig – ac a oedd hefyd yn ffyddlon i goron Lloegr – yn fodd i olygydd *Welsh Festival Music* arddangos enghraifft gydweithredol, gyfeillgar o'r berthynas rhwng y ddwy genedl.

Ceir amrywiaeth mawr o ran arddulliau cerddorol yn yr adran 'Gymreig' hon o *Welsh Festival Music*, sy'n cyfod cyfansoddiadau Robert Jones â rhai o alawon traddodiadol Cymru. Perthyn nifer o'r gweithiau hyn i draddodiad y

bedwaredd ganrif ar bymtheg o gyfansoddi geiriau ar geinciau ac alawon traddodiadol, a chynhwysir yn y gyfrol hon destunau gan Talhaiarn a Ceiriog. Yma hefyd yr ymddengys geiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones ar alawon traddodiadol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn ei gyfrol enwog *Detholiad o Ganiadau*: ‘Eryri Wen’ a ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’. At hyn, ceir testunau gwreiddiol Cymraeg a Saesneg gan Gwynn Jones – ‘Cwyn y Crythor’ a ‘The Crowther’s Lament’ – ar y gainc ‘Corddinan’, testunau nas cyhoeddwyd eto wedi iddynt ymddangos yn *Welsh Festival Music*. Mae’n arwyddocaol na chynhwyswyd geiriau Ceiriog ar ‘Eryri Wen’ yn y gyfrol, ac efallai bod Walford Davies fel golygydd wedi penderfynu y dylid cynnwys geiriau Cymraeg mwy cyfoes – fersiwn T. Gwynn Jones – yn yr achos hwn.⁷⁸

Gellir tybio mai comisiynu’r testunau hyn gan T. Gwynn Jones ar gyfer *Welsh Festival Music* a wnaeth Walford Davies, gan mai dyddiad cyfansoddi ‘Eryri Wen’ a ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’ yw 1924 yn rhestr gynnwys *Detholiad i Ganiadau*, ac ni cheir unrhyw dystiolaeth i’r testunau gael eu cyhoeddi mewn unrhyw le arall. Er nad oes cais o’r fath yng ngohebiaeth Walford Davies yng nghasgliad T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nac ychwaith yng ngohebiaeth E. J. Grutchfield, ysgrifennydd Syr Walford, at y bardd,⁷⁹ mae nodyn T. Gwynn Jones ar ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’ mewn un copi o *Detholiad o Ganiadau* yn dweud mai ‘cais i ddehongli teitl hen gainc, heb eiriau i’w chanlyn, a gefais gan Dr Lloyd Williams, Abery stwyth’ oedd y gerdd honno.⁸⁰ Yn ei ddiolchiadau ar dudalennau blaen *Welsh Festival Music*, mae Walford Davies yn cyfeirio nid yn unig at T. Gwynn Jones, ond hefyd at J. Lloyd Williams (1854–1945), am ‘musical research and assistance’, ‘to whom he

[Walford Davies] is indebted for bringing to light the old melodies *Corddian* and *Breuddwyd Dafydd Rhys*'.⁸¹ Gan ystyried y cyfeiriad hwn at alawon 'Breuddwyd Dafydd Rhys' a 'Corddian' – yn ogystal â'r ffaith na chynhwyswyd geiriau Ceiriog i gainc 'Eryri Wen' yn *Welsh Festival Music* – awgrymir felly fod 'Eryri Wen' T. Gwynn Jones hefyd yn waith a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.

Edrydd y geiriau newydd a gyfansoddwyd ar gainc 'Breuddwyd Dafydd Rhys' hanes hen delynor sydd wedi teithio yn hir 'Drwy eira mawr a gwynt'.⁸² Gorwedda, 'A'i flinder ef yn fawr', ac mae'r 'felys gân' a glyw yn ei ddenu 'I ddawnsio gyda'r eira yn y gwagle oer gwyn'.⁸³ Er mai hanes marwolaeth y telynor a adroddir yn y testun hwn, ceir ymdeimlad o lawenydd a dathlu wrth i'r 'canu [. . .] ei dynnu,/ Ei swyno a'i synnu/ I fyny, i fyny/ Mewn hoen o boen y byd'.⁸⁴ Mae ffigwr y telynor ymron yn chwedlonol yma, wrth iddo gael rhyddhad o flinderon byd i gyfeiliant cerddoriaeth hudol ei wlad. Wrth ganu i 'Eryri Wen', sonia T. Gwynn Jones am harddwch a hyfrydwch y mynyddoedd, 'dan yr heulwen lân/ Yng nghân yr awel wynt'. Cyfarcha'r dirwedd, gan ddymuno 'huno yn dy dirion des/ Am byth, Eryri wen'.⁸⁵ Er y ceir, yn yr ail bennill, gyfeiriadau at oerfel nosweithiau hir, a'r mynydd 'Dan gannaid eira oer', daw'n amlwg nad peth i'w gasáu yw hyn, wrth i'r bardd ddatgan eto, 'Mynnwn huno yn dy oerni glân/ Am byth, Eryri wen'.⁸⁶ Noddfa yw'r mynyddoedd, mae byd natur yn ddihalog yno, ac fe ganfyddir gwreiddiau hanes y genedl yno hefyd: 'Hen gaer fy nhadau gynt'.⁸⁷

Er nas cyhoeddwyd 'Cwyn y Crythor' a 'The Crowther's Lament' eto wedi *Welsh Festival Music*, mae'n werth oedi ychydig gyda'r testunau hyn. Maent yn

perthyn i'r un comisiwn, fe ymddengys, ag 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys', ac mae'r tebygrwydd yn arddull y testunau yn amlwg. Cwyna'r geiriau fod y Cymry wedi colli eu traddodiadau a'u cerddoriaeth, ac yn lle 'moesau glan a fu', 'Daeth y brys a'r wyneb sur'.⁸⁸ Mae'r geiriau Saesneg yn mynd gam ymhellach gan awgrymu mai arian sydd wedi llygru ysbryd y Cymry: 'We must sadly play / And ne'er be gay / [. . .] for the gain of gold'.⁸⁹ Ni chawn ein gadael yn ddiobaith, fodd bynnag. Wrth i sain y delyn ddychwelyd i Gymru yn y ddwy fersiwn ieith yddol, 'daw yn ôl ddi-ddanwch pur' gan beri i'r 'lust for gold' gael ei anghofio ac i chwarae a chwerthin ddychwelyd drachefn.⁹⁰ Wrth ystyried y geiriau hyn yng nghyd-destun eu man perfformio, Arddangosfa'r Ymerodr aeth Brydeinig yn 1924, mae'r feirniadaeth o ysbryd cynnydd yn arwyddocaol. Yn ei araith agoriadol canmolodd y Brenin Siôr V 'deulu' yr Ymerodraeth: ar y naill law yn cynnig datrysiad i anawsterau economaidd Prydain, ac ar y llall yn ymestyn "“progress” and “development”" i ddeiliaid yr Ymerodraeth.⁹¹ Ar lwyfan a oedd ar un wedd yn clodfori cynnydd, felly, dyma T. Gwynn Jones yn pwysleisio pleserau'r bywyd syml yn 'Cwyn y Crythor'. Ysbryd cydweithrediad a chyfeillgarwch sy'n aruchel yma, ond gellid dadlau bod hynny'n adlewyrchu ethos y 'Welsh Week' yn fwy cyffredinol hefyd. Yn hytrach na phwysleisio cyfraniad economaidd Cymru ddiwydiannol i'r Ymerodraeth, canmolir ei chelfyddyd, gan ddangos bod cerddoriaeth nid yn unig yn falm i'r enaid ond hefyd i enaid cenedl. I Walford Davies a T. Gwynn Jones fel ei gilydd, mae'r cyfraniad celfyddydol hwn yn gyfwerth ag ystyriaethau mwy materol, ac yn cyflwyno gwlad amlweddog â'i thrigolion yn byw yn ddedwydd barchus gyda'u crythau a'u telynau, 'yn y byd fel dylai dyn'.⁹²

Ymysg y testunau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth draddodiadol Cymru yn *Welsh Festival Music*, ceir cyfieithiadau gan T. Gwynn Jones o ddau o weithiau Ceiriog, sef 'Hun Gwenllian' a 'Nos Galan'. Mae 'Hun Gwenllian' yn hwiangerdd i ferch Llywelyn ap Gruffudd, sy'n cyferbynnu cwsg diniwed plentyn â'r hyn a wyneba ei theulu: 'Mae'th fron yn ddedwydd, ddedwydd ddydd a nos,/ Ym m}d y gofid'.⁹³ Yn y gerdd wreiddiol gan Ceiriog disgrifir 'afal bach melyngoch' y dywysoges fechan, 'ei holl o ofal byd', a ddefnyddir fel symbol o'i diniweidrwydd.⁹⁴ Cyferbynnir ei chwsg â'r '[c]leddyf' ar lin Llywelyn, yn barod i'w ddefnyddio yn erbyn y 'Norman dig' sy'n 'crynu'r wlad'.⁹⁵ Gwelir y syniad hwn yng nghyfieithiad Saesneg Gwynn Jones o'r testun hefyd, lle y cyflwynir y ddelwedd o'r 'tiny toy' yn hytrach nag afal. Mae'r tegan yn pwysleisio ymhellach y diniweidrwydd sy'n perthyn i gwsg 'sweet and sound' y dywysoges, gwrthbwyntingol i'r 'danger dire' a ddaw o du'r 'angry Norman' yn yr ail bennill.⁹⁶

Mae'r dewis i gynnwys y gân hon yn *Welsh Festival Music* yn arwyddocaol: dyma hwiangerdd i ferch tywysog olaf Cymru, a anfonwyd i leiandy wedi i'w thad gael ei ladd gan luoedd y concwerwr Edward I. Er na cheir unrhyw ddatganiadau gwleidyddol eglur ynghylch methiant ymgyrch Llywelyn yn y gân, mae'r cydymdeimlad â Gwenllian yn amlwg, ac eironig ddigon yw'r disgrifiadau ohoni'n '[g]orffwyso'n ddedwydd [. . .] gan wenu', heb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'i chwmpas na'r hyn sy'n ei disgwyl yn y dyfodol.⁹⁷ Wrth graffu ar y llythyrau gan Walford Davies a'i gynorthwydd personol, E. J. Grutchfield, at Gwynn Jones, prin yw'r wybodaeth ynddynt ynghylch y broses o ddewis gweithiau ar gyfer y casgliad, ond ymddengys o'r

ohebiaeth mai cyfieithu'r hyn a roddwyd iddo yn hytrach na dewis testunau yr oedd T. Gwynn Jones.⁹⁸ Eto, ni wyddys beth oedd sail penderfyniad Walford Davies i gynnwys 'Hun Gwenllian'. Gellir tybio y teimlai'r golygydd ddyletswydd i adlewyrchu peth o hanes Cymru, ond diau y byddai'n awyddus i beidio ag oedi yn rhy hir ar y brwydro yn erbyn y goron Seisnig, a sylwer hefyd ar y defnydd o'r term 'Norman' yn hytrach na 'Sais' i gyfeirio at y gelyn. Roedd cerdd gan Ceiriog ar un wedd yn ddewis priodol, felly. Fel y noda Jerry Hunter: 'Ceiriog only approached the conflict between Wales and England at the safe distance provided by (melo)dramatic history.'⁹⁹ Drwy ganoli Gwenllian, a'i statws di-fai hithau, mae geiriau Ceiriog yn cyflwyno'r hanes heb gyfeirio'n esblyg at y cysyniadau gwleidyddol a gwladgarol amlwg sydd ynghlwm wrthynt. Ymhellach, gellir synio am Gwenllian fel symbol o ddiniweidrwydd plentyndod yn fwy cyffredinol, a bod y cyd-destun hanesyddol yn eilradd o ran pwysigrwydd yn y gân. Mae'r adroddwr yn genfigennus, bron, o Gwenllian a'i chwsg tawel: 'O! am orffwyso'n ddedwydd iach', a gwelir cyfieithiad Saesneg T. Gwynn Jones yn pwysleisio safbwynt yr adroddwr ymhellach drwy gyfrwng y rhagenw personol, 'Oh! that the sleep thou hast were mine'.¹⁰⁰ Tynnir y pwyslais oddi ar deulu'r dywysoges fach gan droi'r ffocws at yr adroddwr. Dyma ddewis diogel, felly: testun sy'n cyfeirio at hanes rhyfelgar Cymru, ond heb gorddi'r dyfroedd.

Yn ei gyfieithiad o 'Hun Gwenllian', mae Gwynn Jones yn llwyddo i drosglwyddo cynnwys y gwaith gwreiddiol gan gadw hefyd, ar y cyfan, at acenion a rhythmau'r gerddoriaeth. Yn nhermau methodoleg Low, mae'r marciau yn uchel yng nghategoriâu 'Sense', 'Rhythm' a 'Singability'. Math

gwahanol o gyfieithiad a geir yn ‘New Year’s Eve’, fersiwn Gwynn Jones o ‘Nos Galan’ Ceiriog, fodd bynnag. Yn hytrach na glynu’n agos at ystyr lythrennol y testun gwreiddiol linell wrth linell, yn achos ‘New Year’s Eve’ cawn gyfieithiad sy’n ymryddhau o drefn a strwythur y gwreiddiol. Egyr cerdd Ceiriog gyda datganiad sy’n pwysleisio pa mor bwysig yw’r wlad i’r adroddwr, ‘Oer yw’r g{r sy’n methu caru / Hen fynyddoedd annwyl Cymru’, ac fe sonnir am arian yn yr ail bennill, sy’n cynnwys y cyngor, ‘Byth na waria fwy na’th ennill’.¹⁰¹ Cyfeirir eto at y mynyddoedd yn y pennill olaf, y tro hwn gan adleisio’r llinell gyntaf, ‘Oer yw’r eira ar Eryri’.¹⁰² Cyffelybir yr eira i’r bobl hynny ‘na ofalan’ [. . .] / Gwrdd a’u gilydd ar nos Galan’, ac fe bwysleisir pwysigrwydd cyfeillion a chwmpeni.¹⁰³ Yn fras, yr un yw ergyd cyfieithiad T. Gwynn Jones hefyd, ond ei fod wedi newid trefn y penillion wrth gyfieithu. ‘The storm on Snowdon’ yw’r ddelwedd gyntaf, yn hytrach na’r ‘Hen fynyddoedd annwyl’, ac ni chyfeirir at y g{r oer ‘sy’n methu [eu] caru’.¹⁰⁴ Dywed y cyfieithiad yn hytrach pa mor bwysig yw cynnal yr hen draddodiadau: ‘let us sing as sang our fathers [. . .] / He who telleth not their story [. . .] / Knoweth neither love nor glory’.¹⁰⁵ Ceir cyfeiriad ym mhennill cyntaf y gwreiddiol at y flwyddyn sydd i ddod, a’r sôn am ‘wyliau llawen flwyddyn nesaf’ i’r un sy’n caru mynyddoedd Cymru ‘gynhesaf’.¹⁰⁶ Adleisir hyn wrth gloi’r fersiwn Saesneg, gyda’r ymgynnull i ganu a dathlu’r flwyddyn newydd:

Now another year is coming [. . .]

Let the ceilings, high and hollow,

Ringin, welcome them that follow.¹⁰⁷

Er na cheir yma gyfieithiad sy'n glynu at union ystyr y testun gwreiddiol o ran rhediad y geiriau Cymraeg, y mae 'New Year's Eve' yn llwyddo i ddal awyrgylch y gwreiddiol a chadw'r pwyslais ar bwysigrwydd cwmpeini a hynafiaeth traddodiad. Mae'n bosib mai blaenoriaethu rhythm dros yr angen i atgynhyrchu'r cynnwys yn union a wna T. Gwynn Jones yma, ac fe'n hatgoffir o hierarchaeth Harai Golomb yn yr achos hwn, sy'n nodi bod ystyr a chynnwys y testun yn eilradd o ran pwysigrwydd i'r ystyriaeth rhythmig hollbwysig. Mae'n werth nodi'r penderfyniad i gynnwys cyfieithiad Saesneg newydd o'r geiriau Cymraeg ar y gainc hon yn hytrach na'r geiriau Saesneg adnabyddus gan Thomas Oliphant, 'Deck the hall with boughs of holly' – ac mae'n bosib mai modd o 'gyfieithu' diwylliant a geir yma: mae fersiwn Gwynn Jones yn pwysleisio hyfrydwch mynyddoedd Cymru, hynafiaeth y traddodiad a'r ddyletswydd i'w gynnal, yn hytrach na'r celyn a'r medd sy'n flaenllaw yn fersiwn Oliphant.¹⁰⁸

Un o brif ddibenion yr ail adran hon o'r *Welsh Festival Music* oedd cyflwyno cerddoriaeth Gymreig i gynulleidfa ehangach, gan arddangos gwerth a phwysigrwydd y traddodiad llenyddol yng Nghymru. Yng nghyswllt ymgais ymwybodol Walford Davies i geisio hybu cyfoeth y diwylliant Gymreig yn ystod y 'Welsh Week', eironig ddigon yw'r sylw a wnaed yn adolygiad y *Musical Times* ar berfformiadau'r wythnos:

A good deal of Welsh music was heard in this Wembley week, but a good deal also of universal music. In fact it was less the native works,

and even less the standard of the performances than the excellence of the foreign music chosen, which distinguished the Festival and promised a better future for musical Wales.¹⁰⁹

Tair enghraifft o ‘universal music’ wedi eu cyfieithu gan T. Gwynn Jones a gynhwysir yn nhrydedd adran *Welsh Festival Music*: cân gan Beethoven, ‘Die Ehre Göttes’, a’r geiriau Cymraeg, ‘Y Nefoedd Sy’n Datgan Clod y Goruchaf’, wedi eu cyfieithu gan Gwynn Jones o destun Almaeneg C. F. Gellert; ‘O Dirion Iesu’, cyfieithiad Cymraeg o eiriau Lladin ‘O Bone Jesu’, y gerddoriaeth gan Giovanni Pierluigi da Palestrina; a gwaith arall gan Palestrina, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg gan Gwynn Jones ‘Beauty Eternal = Lendid Tragwydd’, wedi eu ‘haralleirio’ (‘paraphrased’¹¹⁰) o’r Eidaleg.

Mewn llythyr sy’n trafod ‘Beauty Eternal = Lendid Tragwydd’, nodâ E. J. Grutchfield ei fod wedi anfon y sgôr, a oedd yn cynnwys y geiriau Eidaleg gwreiddiol, at T. Gwynn Jones. Dywed Grutchfield, ‘May I ask you to take care that the pencillings should not get rubbed out? I have made the TSF [tonic sol-fa] agree with all the corrections furnished in pencil but am leaving the staff till the text is decided on + the pencillings show how the Italian text was presented.’¹¹¹ Teg yw tybio, gan fod sol-ffa yn nodiant yr oedd Gwynn Jones yn medru ei ddarllen, ei fod wedi ystyried y gosodiad cerddorol wrth gyfieithu’r geiriau hyn. Ond nodâ Walford Davies yn ei ragymadrodd i *Welsh Festival Music* fod modd amrywio rhythmau’r gerddoriaeth hon, megis cyfansoddiadau Robert Jones, er mwyn cyd-fynd ag acenion yr iaith:

what was said with regard to accentuation in Robert Jones's works, applies even more forcibly in the case of Palestrina [. . .] The note values are rendered as given, but the natural accentuation of the words should be observed.¹¹²

Mae'n nodedig y pwysleisir ar y sgôr mai aralleiriad, nid cyfieithiad, yw fersiynau T. Gwynn Jones o'r Eidaleg yn yr achos hwn.¹¹³ Ceir cydnabyddiaeth, felly, fod y dull cyfieithu yn fwy ystwyth ac wrth graffu ar yr Eidaleg gwreiddiol, gwelir un prif wahaniaeth rhwng y fersiwn Eidaleg a thestunau Cymraeg a Saesneg Gwynn Jones. Mae'r geiriau gwreiddiol yn cyfarch 'specchio', sef yr Eidaleg ar gyfer drych, gan ddweud mor glir a dilychwin fu'r drych hwnnw bob amser. Wrth ei weld ei hun yn y drych hwnnw, mae'r adroddwr yn ystyried ei gyflwr moesol ei hun, yn wylo afonydd o dagrau o achos ei 'lascivi pensier' (meddyliau anllad), ac yn dweud bod y camgymeriadau a wnaeth yn achosi poenau 'profondi' (dyfnion) iddo. Er hyn, mae'r drych hefyd yn rhoddi i'r adroddwr feddyliau 'a te' ('amdanat') sy'n hyfryd a hapus.¹¹⁴ Un o fadrigalau crefyddol Palestrina yw hon, ac mae'r adroddwr yn gweld tebygrwydd rhwng y drych glân hwn a Duw. Mae'r defnydd o'r ail berson yn y llinell glo ('a te') yn ddiau yn gyfarchiad i ffigwr crefyddol. Mae'r ddelwedd o'r drych yn un effeithiol: ar y naill law mae'r drych yn fodd i'r pechadur ei weld ei hun, ond ar y llall gellir hefyd ystyried y drych yn symbol o burdeb cariad Duw, ac felly yn fodd i'r meidrolyn archwilio camweddau ei orffennol.

Mae T. Gwynn Jones, fodd bynnag, yn ei aralleiriadau o'r geiriau hyn, wedi hepgor delwedd y drych yn gyfan gwbl. Mae'n anochel, wrth gwrs, fod elfennau

ieithyddol, llenyddol a diwylliannol yn cael eu colli wrth i destun symud o'r naill iaith i'r llall. Yn *Welsh Festival Music*, er enghraifft, gwelir colli'r gynghanedd yn y cyfieithiadau o'r cywyddau, ac nid yw ffigwr 'Cupid' i'w ganfod yng nghyfieithiad Cymraeg Gwynn Jones o 'In Sherwood Lived Stout Robin Hood'. Er nad yw'r drych yn ymddangos yn 'Lendid Tragwydd' na 'Beauty Eternal', mae'r neges greiddiol am brydferthwch, pechod, tristwch, a gobaith, i'w chanfod yn y geiriau Cymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Cysyniad o brydferthwch mwy cyffredinol – 'Beauty Eternal', 'Lendid Tragwydd' – sy'n cael ei greu yn aralleiriadau T. Gwynn Jones, ac fe siaredir â'r prydferthwch hwn (sydd, fel y drych yn y gwreiddiol, yn gynrychiolaeth o gariad Duw) drwy gydol y testun: 'Yet me thou showest virtue higher, profounder, / Beauty and joy ever dwell in thy brightness', 'Ynot gwelaf uchter a dyfnder, / Gwelaf lawenydd glân byth yn dy lyfnder'.¹¹⁵

Mae'r union ystyr a drosglwyddir gan fersiynau Cymraeg a Saesneg Gwynn Jones o'r testun Eidaleg ychydig yn wahanol, felly, i'r gwreiddiol, ond gwelir bod gan y tri thestun yr un neges yn ei hanfod: bod modd i bechadur ganfod cysur a rhyddhad yng nghariad Duw.

Ymysg y testunau a ymddengys yn nhrydedd ran *Welsh Festival Music*, ceir hefyd gyfieithiadau i'r Saesneg gan Gwynn Jones o emynau Cymraeg: 'O! Cenwch fawl i Brynwr byd' gan Emrys (William Ambrose), ac 'O Dduw, rho im dy Ysbryd' gan Dafydd William. Dim ond un pennill sy'n ymddangos yn y gyfrol yn y ddau achos, gyda chyfieithiadau Saesneg T. Gwynn Jones wedi'u cynnwys yn gyfochrog â'r gwreiddiol. Cyfieithiadau i'w canu yw'r rhain eto, a gwelir enghraifft, yng nghyfieithiad Gwynn Jones o 'O! Cenwch fawl i Brynwr

byd', o'r modd y mae pwyslais ac acenion y gerddoriaeth i'w hystyried yn uwch nag agweddau eraill yr hierarchaeth wrth gyfieithu geiriau caneuon. Mae'r ystyr yn y cyfieithiad yn agos at y gwreiddiol, ond un o nodweddion effeithiol pennill Emrys yw'r odlau cyrch sy'n rhedeg drwyddo: 'Mae'r engyl pur mewn nefol iaith/ Yn hoffi'r gwaith o'i foli'.¹¹⁶ Ni cheir ymgais gan T. Gwynn Jones i atgynh yrchu'r odlau cyrch hynny, ond mae diwedd y llinellau yn nhrosiad Gwynn Jones yn dilyn yr un patrwm odli â'r gwreiddiol: 'byrth gogoniant [. . .] mewn moliant', 'everlasting glory [. . .] ever wondrous story'.¹¹⁷ Mae hyn yn ymgorffori sylwadau Peter Low ynghylch odli wrth iddo amlinellu ei bum categori ('Singability', 'Sense', 'Naturalness', 'Rhythm', 'Rhyme') fel rhan o'r 'gamp' o gyfieithu geiriau caneuon: 'Applying the Pentathlon Principle [. . .] may mean saying: "Yes, I will have some rhyme. But I will seek some margin of flexibility.'¹¹⁸ Dyma'n union, felly, a wna Gwynn Jones wrth gadw'r odl ar ddiwedd y llinellau ond hepgor yr odl gyrch, sy'n rhoi mwy o ryddid iddo o ran yr agweddau eraill y mae'n rhaid eu hystyried wrth gyfieithu geiriau caneuon.¹¹⁹ Mae'n werth nodi yma y tebyg rwydd y byddai T. Gwynn Jones yn gyfarwydd â cherddoriaeth yr emynau hyn yr oedd yn eu cyfieithu.

Mae'r chwe emyn a gynhwysir yn nhrydedd ran *Welsh Festival Music* i'w canu ar donau Cymreig: 'Vaenol', 'William', 'Joanna', 'Crugybar', 'Caer Llyngod' a 'Llanfair'.¹²⁰ Maent naill ai'n addasiadau o geinciau traddodiadol, neu wedi'u cyfansoddi gan gyfansoddwyr Cymreig, megis Morfydd Llwyn Owen yn achos 'William'. Gwelir yn yr adran hon, felly, ymgais ar ran y golygydd i osod cerddoriaeth grefyddol Gymreig gyfysgwydd â gweithiau Ewropeaidd mawrion gan gyfansoddwyr megis Beethoven, Mendelssohn a

Palestrina. Arwyddocaol yw'r ffaith y dewiswyd cyfieithu'r geiriau Eidalaid ac Almaeneg i'r Gymraeg hefyd. Drwy gyfrwng cyfi eithiadau T. Gwynn Jones, codir y Gymraeg o'i statws fel iaith y werin annysgedig, anwar fel y'i cyflwynwyd yn adroddiadau'r Llyfrau Gleision, a'i gosod gydag ieithoedd diwylliedig Ewrop. I ddiwylliant lleiafrifol, mae cyfieithu yn gallu bod yn weithred wleidyddol, a'r cyfieithiadau yn fodd i'r diwylliant ei gynnal ei hun, fel y nodwyd gan Lawrence Venuti: 'Translating that builds minor cultures simultaneously creates identities for them [. . .], reinforcing their social presence.'¹²¹ Ymhellach, fe'n hatgoffir o sylwadau Miguélez-Carballeira, Price a Kaufmann ar gyfieithu yng Nghymru, a'r rôl greiddiol sydd gan gyfieithiadau yn y broses o 'nation building' yn y diwylliant Cymraeg.¹²² Crybwyllwyd y cysyniad o 'gyfieithu' cenedl eisoes, a dadleuwyd bod cyfrol *Welsh Festival Music* ei hun wedi ei guradu er mwyn cyflwyno delwedd benodol o Gymru i gynulleidfaedd Arddangosfa'r Ymerodraeth. Un rhan o'r ddelwedd, heb os, yw'r modd y caiff y Gymraeg ei hail-fframio yng nghyd-destun cerddoriaeth glasurol Ewrop yn nhrydedd adran y gyfrol hon.

Ymddengys mai Walford Davies, yn anad neb, a oedd yn gyfrifol am guradu'r ddelwedd hon o Gymru. Yn wir, bu perfformiadau'r 'Welsh Week' yn fodd iddo hyrwyddo ei yrfa ei hun gan i'w waith gyda'r Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol arwain yn rhannol at ei benodi'n Master of the King's Musick yn 1934: 'his services received a fitting reward', meddai ei gyfaill C. L. Graves.¹²³ Ond roedd rôl T. Gwynn Jones fel cyfieithydd yn allweddol er mwyn gwneud testunau'r *Welsh Festival Music*, a'i delwedd arbennig o Gymru, yn hygyrch i

gynulleidfa ehangach Arddangosfa'r Ymerodraeth. Pwysleisiwyd hynafiaeth llenyddiaeth y Cymry drwy gyfrwng y gerdd o Lyfr Du Caerfyrddin a'r cywyddau canoloesol, a chafwyd dehongliad Rhamantaidd o hanes a thraddodiadau Cymru yng nghaneuon Ceiriog. Nodwyd cysylltiad y wlad â cherddor canonaidd a oedd yn ffyddlon i Goron Lloegr drwy gyfrwng caneuon Robert Jones, ac fe gynrychiolwyd y traddodiad Anghydfurfiol byw yn achos yr emynau a'r tonau: gweithiau a gyflwynir yn gyfwerth â gweithiau crefyddol pwysig Ewrop. Drwy gyflwyno'r diwylliant Cymraeg fel un amlweddol a chyfoethog, roedd *Welsh Festival Music* yn pwysleisio cyfraniad sylweddol Cymru i fywyd diwylliannol yr Ymerodraeth Brydeinig. Perfformir y fersiwn hon o Gymreictod gan gynnwys y gyfrol: yn cyfieithu'r diwylliant Cymraeg i gynulleidfa'r Arddangosfa ar y naill law ac yn dilysu bodolaeth Cymru yng nghyd-destun Prydain a'r Ymerodraeth ar y llall.

Caerdydd

Elen Ifan

Nodiadau

- ¹ Dymuna'r awdur ddiolch i'r Dr Siwan Rosser, yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost a'r Athro Sioned Davies am eu sylwadau gwerthfawr ar yr ysgrif hon. Dymuna'r awdur hefyd gydnabod cyfraniad yr Athro Jason Walford Davies i ddatblygiad yr ysgrif ar ei ffurf gynharaf (dim perthynas i H. Walford Davies).
- ² Bydd yr ysgrif hon yn arddel *Welsh Festival Music* yn hytrach na *Welsh Festival Book* wrth gyfeirio at y gyfrol gan mai dyma'r teitl ar y clawr blaen.
- ³ David Ian Allsobrook, *Music for Wales: Walford Davies and the National Council of Music, 1918–1941* (Cardiff: University of Wales Press, 1992), t. 2.
- ⁴ H. G. Ley, 'Davies, Sir (Henry) Walford (1869–1941)', *Oxford Dictionary of National Biography* (Oxford: Oxford University Press, 1959) [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/odnb/9780192683120.001/odnb9780192683120-e-32738>, cyrchwyd 16 Hydref 2019.
- ⁵ H. Walford Davies (gol.), *Welsh Festival Music* (London: W. Paxton, 1924), clawr mewnol.
- ⁶ Prin yw'r dystiolaeth dros y gwaddol y gobeithiwyd ei gael. Ni ellir canfod tystiolaeth bod sefydliadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol nac eisteddfodau lleol wedi defnyddio'r llyfr hwn ar gyfer darnau gosod

(archwiliwyd cynnwys rhaglenni'r cyfryw eisteddfodau a chyhoeddiadau megis *Y Cerddor Newydd* sy'n cynnwys adroddiadau o weithgarwch cerddorol Cymru yn y cyfnod). Er hyn, cyfeiria Walford Davies ei hun yn y *Welsh Outlook* yn 1925 at gyngerdd a roddwyd gan Undeb Corawl Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, lle y perfformiwyd gweithiau allan o'r 'Wembley Book' (H. Walford Davies, 'The Musical Outlook', *The Welsh Outlook*, 12:10 (Hydref, 1925), 259).

⁷ 'In his eight years at Aberystwyth he became a crusader of extraordinary singlemindedness. He spread the gospel of music vigorously in Aberystwyth itself [. . .] He also worked tirelessly in promoting musical education and music festivals among the schools and villages up and down the land.' Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Oxford: Oxford University Press, 1990), tt. 267–8.

⁸ Ni chyfieithwyd *Messiah* i'r Gymraeg tan i T. H. Parry-Williams ymgymryd â'r dasg, a hynny yn 1954. Ceir manylion y gwaith cyfieithu yn ffeil *Y Meseia (Handel)*, Papurau Syr T. H. Parry-Williams, I163–8, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

⁹ Cynnwys, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. vi.

¹⁰ H. Walford Davies, 'Foreword', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. ii.

¹¹ *Ibid.*, t. iii.

¹² H. Walford Davies, 'Welsh Music at Wembley', *The Musical Times*, 65:973 (Mawrth, 1924), 251.

¹³ Piers Brendon, *The Decline and Fall of the British Empire* (London: Jonathan Cape, 2007), t. 331.

¹⁴ *Ibid.*

¹⁵ James Morris, *Farewell the Trumpets: An Imperial Retreat* (London: Faber & Faber, 1978), t. 300.

¹⁶ C., 'The Welsh Week at Wembley', *The Musical Times*, 65:977 (Gorffennaf, 1924), 937.

¹⁷ E. J. Grutchfield, 'Welsh Week of Festival Music at Wembley', *The Welsh Outlook*, 12:11 (Tachwedd, 1924), 308.

¹⁸ *Ibid.*

¹⁹ C., 'The Welsh Week at Wembley, 936.

²⁰ *Ibid.*, 937.

²¹ Grutchfield, 'Welsh Week of Festival Music at Wembley', 308.

²² C., 'The Welsh Week at Wembley, 937.

²³ Grutchfield, 'Welsh Week of Festival Music at Wembley', 309.

²⁴ Gwynvre ap Iwan (T. Gwynn Jones), 'Gwalia', 'Môr o Waed Dros Gymru Wen', yn Gwynvre ap Iwan (T. Gwynn Jones), *Dyddiau y Parch. Richard Owen gyda Chynhyrchion Buddugol Ereill* (Wyddgrug: J. Rees, 1891), tt. 25, 27.

²⁵ Gwynn ap Iwan (T. Gwynn Jones), 'Codwn Gledd er Cadw'n Gwlad', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Thomas Gwynn Jones*, Cyfres y Meistri (Llandybïe: C. Davies, 1982), t. 460.

²⁶ Gwynn ap Iwan (T. Gwynn Jones), 'Cadlef Cymru Fydd', yn ap Gwilym (gol.), *Thomas Gwynn Jones*, t. 459.

²⁷ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902–1936* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas, 1987), t. 123; Alun Llywelyn-Williams, 'T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd', yn ap Gwilym (gol.), *Thomas Gwynn Jones*, t. 203.

²⁸ M. Wynn Thomas, 'From Nonconformist Nation to Proletarian Nation: Writing Wales, 1885–1930', yn Geraint Evans a Helen Fulton (goln), *The Cambridge History of Welsh Literature* (Cambridge: Cambridge University Press, 2019), t. 412.

²⁹ T. Gwynn Jones, 'The Irish Coercion Act', yn David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1973), t. 52.

³⁰ Nodyn gan T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', mewn dyddiadur yn cynnwys cerddi gan y bardd, Papurau T. Gwynn Jones (TGJ), C14, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC).

- ³¹ Ibid.
- ³² Llŷr Gwyn Lewis, *'Newydd Gân a Luniodd i'w Genedl': Agweddau ar Geltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats* (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2013). Heb ei gyhoeddi, t. 163.
- ³³ Llythyr, dyddiedig 23 Mai 1937, gan TGJ at William Eames, yn Jenkins, *Cofiant*, t. 353.
- ³⁴ T. Gwynn Jones, 'Diary of a Pacifist', Papurau TGJ, D293, (LIGC).
- ³⁵ Alan Llwyd, *Byd Gwynn: Cofiant T. Gwynn Jones 1871–1949* (Cyhoeddiadau Barddas, 2019), t. 365.
- ³⁶ Llythyr, dyddiedig 7 Gorffennaf 1915, gan TGJ at R. Silyn Roberts, yn Jenkins, *Cofiant*, t. 250.
- ³⁷ Ibid., t. 261.
- ³⁸ Ibid.
- ³⁹ Gweler Bleddyn Owen Huws, *Pris Cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr* (Talybont: Y Lolfa, 2018), tt. 126–7, 149.
- ⁴⁰ Grutchfield, 'Welsh Week of Festival Music at Wembley', 309.
- ⁴¹ Llwyd, *Byd Gwynn*, t. 267.
- ⁴² Llythyr, dyddiedig 20 Mai 1926, gan TGJ at R. Silyn Roberts, yn Jenkins, *Cofiant*, t. 299.
- ⁴³ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, 100 (Gaeaf, 1997), 18.
- ⁴⁴ J. Gwynn Williams, *The University Movement in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993), t. 117.
- ⁴⁵ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin, 2007), tt. 476–7, 544.
- ⁴⁶ Gweler Russell Grigg, "'You Should Love Your Country and Should Ever Strive to be Worthy of Your Fatherland": Identity, British Values and St David's Day in Elementary Schools in Wales, c.1885–1920', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 29:1 (Mehefin 2018), 124–5.
- ⁴⁷ Morris, *Farewell the Trumpets*, t. 300.
- ⁴⁸ Helena Miguélez-Carballeira, Angharad Price a Judith Kaufmann, 'Introduction: Translation in Wales: History, theory and approaches', *Translation Studies*, 9:2 (2016), 129.
- ⁴⁹ Maria Tymoczko, *Translation in a Postcolonial Context: Early Irish Literature in English Translation* (Manchester: St. Jerome Publishing, 1999), t. 18.
- ⁵⁰ Mynychodd 27 miliwn yr Arddangosfa yn ystod y 150 diwrnod y'i cynhaliwyd, gw. Morris, *Farewell the Trumpets*, t. 300. Ar gyfartaledd, felly, cafwyd 180,000 o ymwelwyr bob dydd, neu 1,260,000 dros gyfnod o wythnos.
- ⁵¹ Lisa Lewis, *Performing Wales: People, Memory and Place* (Cardiff: University of Wales Press, 2018), t. 8.
- ⁵² Gweler A. O. H. Jarman (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), t. 16; Marged Haycock (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* (Cyhoeddiadau Barddas, 1994), t. 41.
- ⁵³ T. Gwynn Jones, 'Majestas Dei', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 98–104.
- ⁵⁴ Cyhoeddwyd y ddau gywydd llawn fel gwaith Dafydd ap Gwilym yn Ifor Williams a Thomas Roberts (goln), *Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Bangor: Evan Thomas, 1914), tt. 78–80; 82–4. Mae'n bosib mai dyma oedd ffynhonnell T. Gwynn Jones wrth gyfieithu. Priodolir 'Y Daran' bellach i Maredudd ap Rhys, gw. Enid Roberts (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003), tt. 83–5. Rhoddir y teitl 'Llys y Banhadlwyn' i 'Y Deildy' yn Helen Fulton (gol.), *Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul: Gomer, 1996), tt. 65–9. Nid ystyrir y gerdd yn rhan o ganon Dafydd ac nid yw wedi ei golygu yn Dafydd Johnston et al. (goln), *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010) nac ar wefan www.dafyddapgwilym.net.

- ⁵⁵ John A. Emerson gyda Jane Bellingham a David Hiley, 'Plainchant: Style', yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians*, 20 cyfrol (London: Macmillan, 2001), cyf. 19, t. 835.
- ⁵⁶ Dienw (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), Dienw (cerddoriaeth), 'Y Daran = Thunder', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 105–10.
- ⁵⁷ H. Idris Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', yn ap Gwilym (gol.), *Thomas Gwynn Jones*, t. 258.
- ⁵⁸ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at W. S. Gwynn Williams, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.
- ⁵⁹ Dienw (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg) a Dienw (cerddoriaeth), 'Y Daran = Thunder', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 107, 109–10.
- ⁶⁰ *Ibid.*, tt. 109, 105.
- ⁶¹ Dienw (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), J. Lloyd Williams (cerddoriaeth), 'Y Deildy = The Arbour', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 113.
- ⁶² *Ibid.*, tt. 111–12.
- ⁶³ Gw. trafodaeth Susan Bassnett ar 'Specific Problems of Literary Translation' yn Susan Bassnett, *Translation Studies* (London and New York: Routledge, 2002), tt. 81–114.
- ⁶⁴ Harai Golomb, 'Music-Linked Translation [MLT] and Mozart's Operas: Theoretical, Textual and Practical Perspectives', yn Dinda L. Gorfée (gol.), *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation* (Amsterdam: Rodopi, 2005), t. 132.
- ⁶⁵ *Ibid.*
- ⁶⁶ Peter Low, 'The Pentathlon Approach to Translating Songs', yn Gorfée (gol.), *Song and Significance*, tt. 192–9.
- ⁶⁷ *Ibid.*, t. 192.
- ⁶⁸ Gw. yn gyfoes â'r *Welsh Festival Music*, er enghraifft: Sigmund Spaeth, 'Translating to Music', *The Musical Quarterly*, 1:2 (Ebrill, 1915), 291–8; A. H. Fox Strangways, 'Song-Translation', *Music & Letters*, 2:3 (Gorffennaf, 1921), 211–24; Herbert F. Peyser, 'Some Observations on Translation', *The Musical Quarterly*, 8:3 (Gorffennaf, 1922), 353–71. Mae Golomb a Low hefyd yn ymdrin ag odl wrth drafod cyfieithu geiriau caneuon, yn ogystal â nifer fawr o feirniaid eraill.
- ⁶⁹ Arthur Graham, 'A New Look at Recital Song Translation', *Translation Review*, 29 (1989), 31.
- ⁷⁰ David Brown, 'Jones, Robert (fl. 1597–1615)', *Oxford Dictionary of National Biography* (Oxford: Oxford University Press, 2004) [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb9780198614128-e-15077>, cyrchwyd 15 Hydref 2019. Derbynnir y dyddiadau a gynigir yma.
- ⁷¹ *Ibid.*
- ⁷² *Ibid.* Mae T. Gwynn Jones hefyd wedi cyfieithu 'The Lady Oriana', cân gan John Wilbye sydd hefyd yn ymddangos yn y casgliad *The Triumphs of Oriana*; gw. T. Gwynn Jones, *Y Lanaf Oriana = The Lady Oriana* (London: Novello, 1924).
- ⁷³ W. H. Grattan Flood, 'New Light on Late Tudor Composers: XXXV. Robert Jones', *The Musical Times*, 69:1029 (Gorffennaf, 1928), 616.
- ⁷⁴ Brown, 'Jones, Robert (fl. 1597–1615)'.
- ⁷⁵ Michael Kennedy a Joyce Bourne (goln), Delyth Prys (addas.), *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-groes, Curriad, 1998), t. 430.
- ⁷⁶ Gw. Morrison Comegys Boyd, *Elizabethan Music and Music Criticism* (Philadelphia: University of Pennsylvania Press, 1962), t. 242 (n. 33).
- ⁷⁷ Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 97.

- ⁷⁸ Yn gwrthyferbynnu â hyn, geiriau Felicia Hemans ar y gainc ‘Eryri Wen’ – a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn y gyfrol *A Selection of Welsh Melodies* yn 1822 (London: J. Power) – yw’r geiriau Saesneg a gynhwyswyd yn *Welsh Festival Music*.
- ⁷⁹ Llythyrau gan H. Walford Davies at TGJ, Papurau TGJ, G996–1013, LIGC; Llythyrau gan E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G1871–97, LIGC.
- ⁸⁰ R. I. Aaron, ‘Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*’, yn ap Gwilym (gol.), *Thomas Gwynn Jones*, tt. 307–8.
- ⁸¹ H. Walford Davies, ‘Acknowledgements’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. iv.
- ⁸² T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 168.
- ⁸³ *Ibid.*, tt. 169–70.
- ⁸⁴ *Ibid.*, t. 172.
- ⁸⁵ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Eryri Wen’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 147–8.
- ⁸⁶ *Ibid.*, tt. 148–9.
- ⁸⁷ *Ibid.*, tt. 146–7.
- ⁸⁸ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Cwyn y Crythor’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 138, 139.
- ⁸⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘The Crowther’s Lament’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 139–140.
- ⁹⁰ Gwynn Jones, ‘Cwyn y Crythor’, t. 142; ‘The Crowther’s Lament’, t. 143:

Daw telyn eto’n ôl i’r bau,
 A’r moesau glan a fu;
 Daw mwynder byd / Eto’n ôl i gyd Er y tristyd dybryd, du;
 Ac yn lle’r wynebau sur.
 Daw yn ôl ddiddanwch pur,
 A chwrare rhydd / A chwerthin fydd
 Ar y maes, er ei fwyn ei hun, (Ar y fainc er ei fwyn ei hun) A bendith Dduw / Ar y
 bod a’r byw Yn y byd fel dylai dyn.

The harp must once again recall
 The courtesy of yore,
 The scramble bold / Of the lust for gold
 Must forgotten be once more;
 And the wonted joy and grace
 Must illumine each weary face;
 And we shall play / And all be gay
 In the field, for the sake of men (In the hall, for the sake of men) And heaven shall smile /
 When we work our while That we live in the world like men.

- ⁹¹ Daniel Stephen, *The Empire of Progress: West Africans, Indians, and Britons at the British Empire Exhibition 1924–25* (New York: Palgrave Macmillan, 2013), t. 23.
- ⁹² Gwynn Jones, ‘Cwyn y Crythor’, t. 143.
- ⁹³ John Ceiriog Hughes (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.*, (cerddoriaeth, trefn. D. Christmas Williams), ‘Hun Gwenllian = The Sleep of Princess Gwenllian’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 161.
- ⁹⁴ *Ibid.*

- ⁹⁵ Ibid., tt. 164–5.
- ⁹⁶ Ibid., tt. 161, 164.
- ⁹⁷ Ibid., tt. 165–6.
- ⁹⁸ Gw. Ilythrau gan H. Walford Davies ac E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G996-1013, G1871–97, LIGC.
- ⁹⁹ T. G. Hunter, ‘The Literary Nation: Textual Constructions of Welsh Nationhood c.1282 to 1997’, *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, 18/19 (1998), 93.
- ¹⁰⁰ Ceiriog, Gwynn Jones, ‘Hun Gwenllian = The Sleep of Princess Gwenllian’, tt. 165–6.
- ¹⁰¹ John Ceiriog Hughes (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Nos Galan = New Year’s Eve’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 179–80.
- ¹⁰² *Welsh Festival Music*, t. 181.
- ¹⁰³ *Welsh Festival Music*, tt. 182–3. ¹⁰⁴ *Welsh Festival Music*, t. 179.
- ¹⁰⁵ *Welsh Festival Music*, t. 179
- ¹⁰⁶ *Welsh Festival Music*, tt. 179–80.
- ¹⁰⁷ *Welsh Festival Music*, tt. 181–3.
- ¹⁰⁸ Thomas Oliphant, ‘New Year’s Eve’, yn John Thomas (gol.), *The Words of a Collection of Welsh Melodies Arranged by John Thomas* (London: Lamborn Cook, Addison and Co., 1860), t. 18.
- ¹⁰⁹ ‘C.’, ‘The Welsh Week at Wembley’, 936.
- ¹¹⁰ Gw. T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), Palestrina (cerddoriaeth), ‘Beauty Eternal = Lendid Tragywydd’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 202.
- ¹¹¹ Llythyr, dyddiedig 10 Ebrill 1924, gan E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G1871, LIGC.
- ¹¹² Davies, ‘Foreword’, t. iii.
- ¹¹³ Gelwir ef yn ‘paraphrase’ yn Gwynn Jones, ‘Beauty Eternal = Lendid Tragywydd’, t. 202.
- ¹¹⁴ Dymunir diolch yn arbennig i Dr Caterina Magri a Cian Llywelyn am eu nodiadau ar y testun Eidaleg gwreiddiol.
- ¹¹⁵ Gwynn Jones, ‘Beauty Eternal = Lendid Tragywydd’, tt. 206–7.
- ¹¹⁶ Emrys (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), David Emlyn Evans (cerddoriaeth), ‘O! Cenwech Fawl i Brynwr Byd = O! Praise the Saviour of the World’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, t. 215.
- ¹¹⁷ Ibid.
- ¹¹⁸ Low, ‘The Pentathlon Approach’, t. 199.
- ¹¹⁹ Diddorol nodi nad mewn cyd-destun cerddorol yn unig y mae Gwynn Jones yn addasu patrwm odli’r testun gwreiddiol, fel y nodwyd gan Ll}r Gwyn Lewis yn ei drafodaeth o gyfieithiadau T. Gwynn Jones o farddoniaeth Wyddeleg: Ll}r Gwyn Lewis, ‘Cyfieithiadau T. Gwynn Jones a Tadhg Ó Donnchadha o Farddoniaeth Gymraeg a Gwyddeleg’, Tudur Hallam ac Angharad Price (goln.), *Ysgrifau Beirniadol*, 33 (Bethesda: Gwasg Gee, 2014), tt. 30–1.
- ¹²⁰ Gweler Davies (gol.), *Welsh Festival Music*, tt. 215–20.
- ¹²¹ Lawrence Venuti, ‘Introduction’, *The Translator*, 4:2 (1998), 138.
- ¹²² Miguélez-Carballeira, Price a Kaufmann, ‘Introduction: Translation in Wales’, 129.
- ¹²³ C. L. Graves, yn H. C. Colles, *Walford Davies: A Biography* (London: Oxford University Press, 1942), t. 157.